PROTOCOL ARFER GORAU TPC 3A

ADOLYGIAD O BENDERFYNIADAU

Cyflwyniad

1. Mae'r drefn adolygiad o benderfyniadau yn berthnasol i bob math o apêl a glywir gan y Tribiwnlys/Panel Apêl:

- Ardrethiant annomestig
- Prisio treth cyngor;
- Atebolrwydd treth cyngor; a
- Hysbysiadau cwblhau.

Deddfwriaeth

- Rheol 35 o Reoliadau Ardrethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 30 o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apelau) 2005 (OS 1993/290)
- Rheol 42 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Ceisiadau

2. Rhaid i gais gael ei wneud yn ysgrifenedig i swyddfa'r Tribiwnlys rhanbarthol o fewn cyfnod o bedair wythnos i ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad o benderfyniad.

3. Gall cais gael ei wrthod os caiff ei wneud y tu allan i'r terfyn amser uchod.

4. Dylai pob cais am adolygiad o benderfyniad:

    - ddyfynnu'r sail berthnasol neu ar ba sail y gwneir y cais, a
    - darparu datganiad ategol rhesymegol ar gyfer y cais.

5. Bydd y cais yn cael ei gydnabod gan swyddfa'r Tribiwnlys.

Ystyried Ceisiadau

6. Bydd Clerc/Swyddog Tribiwnlys yn canfod os oes sail ddilys ar gyfer adolygiad ar ôl derbyn y cais.

7. Lle mae'n sicr bod sail ar gyfer adolygiad, bydd y Clerc/Swyddog Tribiwnlys yn cyfeirio'r cais i'r Tribiwnlys i'w ystyried.

8. Lle nad oes <u>unrhyw</u> sail ddilys ar gyfer yr adolygiad, bydd y Clerc/Swyddog Tribiwnlys yn ysgrifennu at y parti perthnasol yn eu hysbysu o hyn.

Adolygu

9. Dylai'r Tribiwnlys a benodir i adolygu penderfyniad, gynnwys yr un aelodau a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

10. Bydd aelodau'r Tribiwnlys yn cyfarfod i ystyried y cais ac fe allant benderfynu:

- Peidio ymgymryd ag adolygiad gan fod y meini prawf perthnasol heb gael eu bodloni;
- Cynnal adolygiad a pheidio neilltuo'r penderfyniad, neu
- Cynnal adolygiad a neilltuo'r penderfyniad o dan law'r aelod Llywyddol. Wedi neilltuo'r penderfyniad, bydd unrhyw orchymyn a wnaed o ganlyniad i'r penderfyniad gwreiddiol yn cael ei ddiddymu. Bydd y Tribiwnlys yn gorchymyn fod yr achos yn cael ei ail-glywed gan yr un Tribiwnlys neu yn cael ei ail-benderfynu gan Dribiwnlys gwahanol.

11. Os nad yw'r penderfyniad yn cael ei neilltuo, h.y. mae'n sefyll yr un fath, bydd y partïon yn cael gwybod am eu hawl i apelio i'r llysoedd uwch o fewn pedair wythnos o'r hysbysiad hwn.

12. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r parti o benderfyniad y Tribiwnlys cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl.